# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

**DYDD** Iau, 21 Mawrth 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** P. Hughes-Griffiths (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
S. Sauro, Swyddog Biwro
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 am - 10.30 am**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERYNIADAU - 11EG CHWEFROR 2019**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019 yn gywir.**

**3. CEISIADAU I'R GRONFA CYMORTH DIGWYDDIADAU**
Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a roddai fanylion am geisiadau am gymorth gan y Cynllun Cymorth Digwyddiadau, sydd wedi cael eu hasesu ac sy'n dod i gyfanswm o £6,762.00.

**PENDERFYNWYD**

**3.1 bod y ceisiadau canlynol am gymorth gan y Cynllun Cymorth Digwyddiadau yn cael eu cymeradwyo, yn amodol ar y telerau a'r amodau a nodwyd yn y meini prawf ar gyfer y gronfa:-**

| Digwyddiad | Swm |
|---|---|
| Gŵyl y Celt 2019 | £1,300.00 |
| Tynnu Rhaff Llanboidy 2019 | £1,800.00 |
| Gŵyl y Synhwyrau, Llandeilo 2019 | £2,312.00 |
| Gŵyl yr Orsedd 2019 | £1,500.00* |

[*15 perfformiad o'r ddrama 'Iolo' - £100 fesul perfformiad]

**3.2 yn unol â meini prawf y gronfa, na fydd y ceisiadau canlynol yn cael cymorth:-**

| |
|---|
| Walk for Maggie's 2019 |
| Cyhoeddi llyfr ar hanes y Tabernacl, Hendy-gwyn |
| Rasys Her Noddedig 10k,5k a 2.5k Gwanwyn 2019 |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**3.3 aros am wybodaeth bellach cyn ystyried y cais gan Sioe Laeth Cymru 2019.**

________________________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL**

____________________

**DYDDIAD**